NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Loncastuximab tesirine ar gyfer trin lymffoma cell B mawr ymledol atglafychol neu anhydrin a lymffoma cell B gradd uchel ar ôl 2 driniaeth systemig neu fwy

31 Ionawr 2024

Mae loncastuximab tesirine (Zynlonta) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer trin lymffoma cell B mawr ymledol a lymffoma cell B gradd uchel ymhlith oedolion y mae eu canser wedi dychwelyd (atglafychu) neu wedi stopio ymateb (anhydrin) ar ôl 2 driniaeth systemig neu fwy. Meddyginiaethau sy'n gweithio trwy'r corff cyfan yw triniaethau systemig. Gallant gynnwys pigiadau, trwythiadau neu feddyginiaethau a gymerir drwy'r geg.

Er mwyn cael loncastuximab tesirine, mae'n rhaid eich bod wedi cael neu wedi methu â chael polatuzumab vedotin yn flaenorol.

Os nad ydych yn gymwys i gael loncastuximab tesirine ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w ddefnyddio.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar  lymffoma nad yw'n Hodgkins fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Lymphoma Action, 0808 808 5555
- Blood Cancer UK, 0808 2080 888
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9505-9